**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21$^{ain}$ Rhagfyr 2009**

## PENODI AELODAU ANNIBYNNOL I WASANAETHU AR BWYLLGOR SAFONAU'R AWDURDOD

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Awdurdod fod dau aelod annibynnol wedi eu penodi i wasanaethu ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod.

## Cefndir

2 Yn ystod 2003, yn unol â gofynion cyfreithiol, sefydlwyd Pwyllgor Safonau gan yr Awdurdod. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys chwe aelod, pedwar ohonynt yn aelodau annibynnol a dau yn gynrychiolwyr yr Awdurdod Tân.

## Gwybodaeth

3 Hysbysebwyd y swyddi yn y Daily Post ac ar wefan y Gwasanaeth ym Medi 2009, gyda'r 28$^{ain}$ o Fedi fel dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau. Daeth pum cais i law yn ymateb i'r hysbyseb. Roedd pob un o'r ymgeiswyr yn gymwys i wneud cais am y swyddi.

4 Bu'r Panel a sefydlwyd gan yr Awdurdod yn ystyried y ceisiadau a ddaeth i law, a chytunwyd i gyfweld â thri o blith y pum ymgeisydd.

5 Ar y 1$^{af}$ o Ragfyr, bu'r Panel yn cwrdd i gyfweld â'r ymgeiswyr oedd ar y rhestr fer. Ar ddiwedd y broses gyfweld, bu'r Panel wrthi, am gryn amser, yn trafod nodweddion a chryfderau'r tri ymgeisydd, gan ddod i'r casgliad y gellid eu penodi, ill tri.

6 Penderfynodd y Panel benodi Celia Blomeley a Jane A Eyton-Jones, a hynny i ddod i rym ar y 1af o Ionawr 2010 am gyfnod o bum mlynedd.

7 Aelodaeth y Pwyllgor a'u cyfnodau fydd:

**Aelodau Annibynnol:**
Simon Fysh (Medi 2007 – Medi 2011)
Samindre Soysa (Ebrill 2008 – Mawrth 2013)
Celia Blomeley (Ionawr 2010 – Rhagfyr 2013)
Jane A Eyton-Jones (Ionawr 2010 – Rhagfyr 2013)

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Tân:**
Y Cynghorydd Merfyn Thomas, Conwy (Mai 2008 – Mai 2012)
Y Cynghorydd Glyn Williams, Sir Ddinbych (Mai 2008 – Mai 2012)

**Argymhelliad**

8 Bod yr Awdurdod yn nodi cynnwys yr adroddiad.